49	Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ¹⁷	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru	Hysbysu/ymgynghori lle y bodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2 Atodlen 1. Cymhwyso'r diffiniad cywir o 'berthnasol' yn Lloegr ² .	Hysbysu/ymgynghori lle y bodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2 Atodlen 1. Cymhwyso'r diffiniad cywir o 'berthnasol' yng Nghymru ³ .

¹⁶ Rhoddir rhestr o'r Byrddau Iechyd hyn ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/44948> (yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi)

¹⁷ Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yw'r Tîm Diogelu Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre (<http://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory/NHSTrusts> (yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi))

Atodlen 1 y Rheoliadau CFfGR		Esboniad o sut y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n adnabod yr ymgynghorai a ragnodir		
	Colofn 1: Ymgynghorai	Colofn 2 : Yr amgylchiadau pryd y mae'n rhaid hysbysu / ymgynghori â'r unigolyn hwnnw	Yn Lloegr	Yng Nghymru
50	Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar weithrediad safle a amlygwyd ar fap diogelu ¹⁸ a phob datblygiad yn yr ardal forol yn awr ac yn y dyfodol	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn dehongli 'yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn' i olygu 'y Weinyddiaeth Amddiffyn' (MoD). Hysbysu/ymgynghori lle y bodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2 Atodlen 1.	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn dehongli 'yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn' i olygu 'y Weinyddiaeth Amddiffyn' (MoD). Nid yw'r ymgynghorai hwn wedi'i gynnwys yn y rhestr Atodlen 1. Caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ymgynghori â'r MoD fel corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig (gweler Tabl 3 yr Atodiad hwn).
51	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ('yr ONR')	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar faterion sy'n berthnasol i ddibenion yr ONR o fewn ystyr Rhan 3 Deddf Ynni 2013 (gweler a67 y Ddeddf honno) ¹⁹	Hysbysu/ymgynghori lle y bodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2 Atodlen 1.	Hysbysu/ymgynghori lle y bodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2 Atodlen 1.

¹⁸ Yn unol â rheoliad 3(3)(g)(iv) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ymgynghoreion Rhagnodedig a Phartïon â Buddiant ac ati) (Diwygio) 2013 (OS 2013/522), ystyr "map diogelu" yw honno a roddir mewn cyfarwyddyd a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddir gan erthyglau 16(4), 25(1), 29(6) a 39 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr) 2010

¹⁹ Mae a67 Deddf Ynni 2013 yn diffinio diben yr ONR sy'n ymwneud â diogelwch, diogeled, mesurau diogelu a chludiant niwclear

TABL 2 – YMGYMERWYR STATUDOL PERTHNASOL

Wrth adnabod ymgwymerwyr statudol 'perthnasol', bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio'r diffiniad o 'berthnasol' a esbonnir yn **adran A2** Nodyn Cyngor 3 (gan gymhwyso 'prawf perthnasedd' y Rheoliadau CFFGR). Yng Nghymru, wrth benderfynu p'un a yw ymgwymerwr statudol yn gyfrifol am ardal sydd 'gerllaw' lleoliad y datblygiad arfaethedig, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac yn ystyried p'un a yw'r ymgwymerwr statudol wedi'i leoli o fewn pellter rhesymol o'r prosiect²⁰.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymgynghori â'r ymgwymerwyr statudol perthnasol pan fodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2 Atodlen 1 y Rheoliadau CFFGR, sef "*Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar eu swyddogaethau fel ymgwymerwyr statudol*".

Ymgwymerwyr Statudol Perthnasol
Ymgwymerwyr statudol perthnasol mewn sectorau penodedig (a8 Deddf Caffael Tir 1981 (fel y'i diwygiwyd)²¹
Rheilffyrdd (Network Rail Infrastructure Ltd, HS1 Ltd, Network Rail (High Speed) Limited) ²² ; Ystad Rheilffyrdd Hanesyddol Highways England; London and Continental Railways Limited; Network Rail; Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd; a'r Adran Drafnidiaeth) ²³
Rheilffyrdd Cul
Trafnidiaeth Ffyrdd (Trafnidiaeth ar gyfer Llundain ac ymgwymerwyr tollffyrdd statudol ²⁴)
Trafnidiaeth Ddŵr (ymgwymerwyr tollau fferi statudol)
Awdurdodau Camlas neu Fordwyo Mewndiro ²⁵

²⁰ Gallai'r Arolygiaeth Gynllunio geisio amlygu unrhyw ymgwymerwr statudol perthnasol o fewn radiws 10km o leoliad y datblygiad arfaethedig

²¹ Nid yw'r Ddeddf Caffael Tir yn rhagnodi cyrff penodol o fewn y sectorau seilwaith a nodwyd. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn amlygu'r cyrff hyn gan ddefnyddio dull gwybodus a rhesymol. Ar sail ragofalus, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn trin y cyrff canlynol fel ymgwymerwyr statudol (ac yn ymgynghori â hwy lle y bo'n berthnasol) o fewn y sectorau a nodwyd. Gwneir hyn oherwydd y cawsant eu sefydlu gan statud a'u bod yn gyfrifol am seilwaith/rhwydweithiau cyhoeddus cenedlaethol neu ranbarthol

²² Yn unol ag adran 25 Deddf Cynllunio 2008 a Gorchymyn Deddf Cynllunio 2008 (Dynodi Rheilffyrdd) 2010, mae Network Rail Infrastructure Ltd (rhif cwmni 02904587) a Network Rail (CTRL) Ltd (rhif cwmni 04434562) yn weithredwyr cymeradwy. Newidiodd Network Rail (CTRL) Ltd ei enw i Network Rail (High Speed) Limited ar 18/06/2012. Mae HS1 Ltd yn gwmni preifat, sydd â chonsesiwn gan yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer y llinell gyflym rhwng St Pancras a Thwnnel y Sianel. Network Rail (High Speed) Limited yw Rheolwr Seilwaith y llinell gyflym hon

²³ Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi nodi bod y sefydliadau hyn wedi ymgymryd â swyddogaethau BRB (Residuary) Ltd, a amlygwyd gynt yn ymgwymerwr statudol ac a ddiddymwyd ar 30 Medi 2013. Rhoddir gwybodaeth am swyddogaethau'r cyrff hyn ar y wefan:

<https://www.gov.uk/government/news/brb-residuary-ltd-has-been-abolished>

²⁴ Sefydlwyd y cyrff hyn gan statud i weinyddu taliadau tollau ar ffyrdd, pontydd a thwneli penodol ym Mhrydain Fawr, a deëllir eu bod yn parhau i weithredu o dan y pwerau statudol hynny. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn bod y seilwaith hwn o arwyddocâd rhanbarthol ac felly ystyrir bod pob corff perthnasol yn ymgwymerwr statudol at ddibenion a127 Deddf Cynllunio 2008 (gweler <https://www.gov.uk/uk-toll-roads>)

Awdurdod Dociau a Harbyrau ²⁶
Pier
Goleudy (Tŷ'r Drindod)
Pŵer Hydrolog
Yr Awdurdod Hedfan Sifil (gweler cofnod 30 uchod yn Nhabl 1 yr Atodiad hwn)
Deiliad Trwydded (Pennod 1 Rhan 1 Deddf Trafnidiaeth 2000) ²⁷
Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (Y Post Brenhinol)
Ymgwymerwyr Statudol Tybiedig Perthnasol
Yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau berthnasol ²⁸
Yr Asiantaeth yr Amgylchedd berthnasol (Lloegr) a Cyfoeth Naturiol Cymru (Cymru) (gweler cofnodion 12 a 18 uchod yn Nhabl 1 yr Atodiad hwn)
Yr ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth perthnasol ²⁹
Y trawsgludwr nwy cyhoeddus perthnasol ³⁰
Y deiliad trwydded trydan perthnasol sydd â Phwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol ³¹ (mae'r categori hwn yn cynnwys: cynhyrchwyr trydan; dosbarthwyr trydan; trosglwyddyddion trydan; a rhyng-gysylltwyr trydan)

²⁵ Mae nifer o Awdurdodau Camlas a Mordwyo Mewndirol yn bodoli. Nodir rhai o'r cyrff hyn yma <http://aina.org.uk/members.aspx>, ond mae'n bosibl na fydd y rhestr hon yn cynnwys pob un

²⁶ Mae'r categori hwn yn cynnwys yr Awdurdod Harbwr statudol perthnasol, er enghraifft, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain (ASP) mewn rhai achosion, sef corff corfforaethol a sefydlwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 1981 ac sydd â rhai pwerau a dyletswyddau statudol – gweler www.ports.org, ond mae'n bosibl na fydd y rhestr hon yn cynnwys pob un

²⁷ Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn deall mai'r unig un sydd wedi'i drwyddedu ar hyn o bryd yw NATS Ltd. Mae cyrhaeddiad daearyddol trwydded NATS yn ymestyn ar draws holl ofod awyr y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys gofod awyr y tu hwnt i arfordir y Deyrnas Unedig

²⁸ Mae cyfrifoldebau'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau wedi'u cyfyngu i dir, cartrefi a datblygiadau yn Lloegr yn unig

²⁹ Mae gwybodaeth am yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan gwmnïau dŵr ar gael ar wefan OFWAT - <http://www.ofwat.gov.uk/consumerissues/watercompanies/map/>

³⁰ Tybir bod trawsgludwyr nwy cyhoeddus yn ymgwymerwyr statudol at ddibenion y Ddeddf Caffael Tir yn unol â Deddf Nwy 1995 Atodlen 4 paragraff 2 (1)(xxxi). Mae trawsgludwyr nwy cyhoeddus wedi'u rhestru ar gofrestr gyhoeddus Ofgem (gweler <https://epr.ofgem.gov.uk/Document>). Nid yw amodau trwydded trawsgludwyr nwy cyhoeddus, ym mhob achos, yn cyfyngu gweithrediadau i ardal ddaearyddol benodol. Ar sail ragofalus, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymgynghori â phob trawsgludwr nwy cyhoeddus y mae ei drwydded yn cwmpasu Prydain Fawr, oni bai y cytunir â'r deiliad trwydded i weithredu fel arall

³¹ Yn unol â Deddf Trydan 1989 atodlen 16 paragraff 2(g), dim ond rhai ymgwymeriadau trydan y tybir eu bod yn ymgwymerwyr statudol at ddibenion y Ddeddf Caffael Tir. Ymgwymeriadau yw'r rhain y mae eu trwydded yn rhoi hawl iddynt arfer unrhyw bŵer a roddir gan atodlen 3 Deddf Trydan 1989 (pŵer prynu gorfodol). Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio ymagwedd ochelgar ac yn ystyried bod 'hawl i arfer' yn golygu 'lle mae pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol mewn grym yn y drwydded', ac nid bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi awdurdodi caffael tir penodol yn orfodol trwy orchymyn. Mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem), a thrwy adolygu cofrestr gyhoeddus Ofgem, amlygwyd ymgwymeriadau trydan y mae eu trwydded yn cynnwys yr hawl i arfer pŵer prynu gorfodol. Mae Ofgem wedi cadarnhau nad yw trwyddedau cyflenwyr trydan yn cynnwys yr hawl i arfer pwerau prynu gorfodol. Nid yw trwyddedau trydan, ym mhob achos, yn nodi, nac yn cyfyngu, gweithrediadau neu gyfrifoldeb i ardal ddaearyddol

Cyrff Iechyd (a16 y Ddeddf Caffael Tir)
Y Corff Gwasanaeth Iechyd perthnasol (ar gyfer prosiectau yn Lloegr yn unig): <ul style="list-style-type: none"> • Y Grŵp Comisiynu Clinigol a Bwrdd Comisiynu'r GIG (yr Awdurdod Iechyd Strategol a'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol gynt (gweler cofnod 5 uchod yn Nhabl 1 yr Atodiad hwn)) • Awdurdodau Iechyd Arbennig³²
Yr Ymddiriedolaethau GIG perthnasol: <ul style="list-style-type: none"> • pob ymddiriedolaeth y GIG yn Lloegr³³ (heblaw am Ymddiriedolaethau Sefydledig), a'r • Ymddiriedolaethau GIG canlynol yng Nghymru: Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre (gweler cofnod 49 uchod yn Nhabl 1 yr Atodiad hwn)
Ymddiriedolaethau Sefydledig perthnasol y GIG ³⁴ (ar gyfer prosiectau yn Lloegr yn unig)
Y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol (ar gyfer prosiectau yng Nghymru yn unig (gweler cofnod 48 uchod yn Nhabl 1 yr Atodiad hwn))

benodol, sy'n creu anawsterau wrth gymhwyso'r 'prawf perthnasedd'. Gan ddefnyddio dull rhagofalus, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn ymgynghori â phob deiliad trwydded trydan penodedig y mae ei drwydded yn cwmpasu Prydain Fawr, oni bai y cytunir â'r deiliad trwydded i weithredu fel arall

³² Mae'r rhestr o Awdurdodau Iechyd Arbennig ar gael ar wefan Dewisiadau'r GIG

(<http://www.nhs.uk/ServiceDirectories/Pages/SpecialHealthAuthorityListing.aspx> (yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi))

³³ Mae'r rhestr o Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr ar gael ar wefan Dewisiadau'r GIG (<http://www.nhs.uk/servicedirectories/pages/nhstrustlisting.aspx> (yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi))

³⁴ Mae'r rhestr o Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG ar gael ar y wefan ganlynol (<https://www.gov.uk/government/publications/nhs-foundation-trust-directory/nhs-foundation-trust-directory> (yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi))

TABL 3 – CYRFF YMGYNGHORI NAD YDYNT YN RHAGNODEDIG

Enw'r corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig	Sefyllfaedd lle y caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ymgynghori â'r corff hwn yn ôl ei disgresiwn	Esboniad o'r rhesymau pam mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu'r corff hwn yn corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig
Cadw	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru a/neu ddyfroedd tiriogaethol Cymru	Nid yw Cadw, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru ³⁵ , wedi'i amlygu'n benodol yn ymgynghorai rhagnodedig yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFFGR. Fodd bynnag, o ystyried rôl arwyddocaol Cadw mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol, mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn y dylid ceisio safbwyntiau Cadw (fel sefydliad ar wahân i Weinidogion Cymru) mewn perthynas â phob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru a/neu ddyfroedd tiriogaethol Cymru ³⁶ .
Comisiynydd y Gymraeg	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru	Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi'i nodi'n ymgynghorai statudol yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFFGR. Fodd bynnag, o ystyried y pwysigrwydd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ei roi i gefnogi'r iaith Gymraeg, ystyrir y dylid ceisio barn Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â phob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru.
Yr Awdurdod Trafnidiaeth ar y Cyd perthnasol	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dtrafnidiaeth o fewn, i neu o Gymru Error! Bookmark not defined.	Nid yw Atodlen 1 y Rheoliadau CFFGR yn rhestru unrhyw awdurdodau yng Nghymru sy'n debyg i Awdurdodau Gweithredol Trafnidiaeth Teithwyr (PTEs) neu Awdurdodau Trafnidiaeth Integredig (ITAs) (sy'n gweithredu yn Lloegr ac sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFFGR fel cyrff ymgynghori). Fodd bynnag, mae Awdurdodau Trafnidiaeth ar y Cyd (JTAs) wedi'u sefydlu o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 ac mae ganddynt gyfrifoldebau i ddarparu trafndiaeth gyhoeddus ar draws y rhanbarthau. Mae JTAs yn cynnwys: Consortiwm Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) a Chyfarwyddwyr yr Amgylchedd ac Adfywio De-ddwyrain Cymru (SewDER), sydd wedi disodli Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta). Nid yw Consortiwm

³⁵ Mae Gweinidogion Cymru ar y rhestr ymgynghoreion statudol yn y tabl yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFFGR ac mae'n rhaid eu hysbysu ac ymgynghori â nhw pan fodlonir y prawf amgylchiadau yng ngholofn 2, sef "*pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru*". Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi dehongli 'Gweinidogion Cymru' i olygu 'Llywodraeth Cymru'

³⁶ Cadw yw'r corff perthnasol ar gyfer llongdrylliadau dynodedig yn nyfroedd tiriogaethol Cymru o dan a1 ac a2 Deddf Diogelu Llongdrylliadau 1973. Cadw yw'r corff perthnasol hefyd mewn perthynas ag unrhyw safleoedd tanddwr sydd wedi'u rhestru o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

Enw'r corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig	Sefyllfaoedd lle y caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ymgynghori â'r corff hwn yn ôl ei disgresiwn	Esboniad o'r rhesymau pam mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu'r corff hwn yn corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig
		Trafnidiaeth Integredig Gogledd Cymru (Taith) a De-orllewin Cymru (SWWitch) yn gweithredu mwyach. O ystyried y tebygolrwydd sylweddol y bydd Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) yn effeithio ar drafnidiaeth yng Nghymru, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac, yn ôl ei doethineb, gallai ymgynghori â'r JTA perthnasol, yn dibynnu ar leoliad daearyddol yr NSIP arfaethedig.
Yr Awdurdod cyfunol perthnasol	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar swyddogaethau'r awdurdod cyfunol.	Mae swyddogaethau awdurdod cyfunol yn ymwneud yn bennaf (ond nid yn unig) â datblygu economaidd, adfywio, trafnidiaeth a swyddogaethau eraill y mae'r aelod-awdurdodau'n cytuno i'w trosglwyddo. O ystyried y tebygolrwydd sylweddol y bydd NSIPs yn effeithio ar y swyddogaethau hyn, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac, yn ôl ei disgresiwn, gallai ymgynghori â'r awdurdod cyfunol perthnasol.
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn	Pob cais arfaethedig yng Nghymru sy'n debygol o effeithio ar weithrediad safle a amlygwyd ar fap diogelu ³⁷ a phob datblygiad yn yr ardal forol yn awr ac yn y dyfodol	Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFfGR ar gyfer prosiectau yn Lloegr yn unig. Fodd bynnag, o ystyried y pwysigrwydd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ei roi i rôl y Weinyddiaeth Amddiffyn, ystyrir y dylid ceisio barn y Weinyddiaeth Amddiffyn ar bob cais arfaethedig yng Nghymru sy'n debygol o effeithio ar weithrediad safle a amlygwyd ar fap diogelu ³⁸ a phob datblygiad yn yr ardal forol yn awr ac yn y dyfodol.
Tiriogaeth Ddibynnol berthnasol y Goron Brydeinig	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir a/neu'r amgylchedd morol yn y Dirioegaeth Ddibynnol honno	Nid yw Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel (beiliaethau Jersey a Guernsey) wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFfGR. Mae'r ynysoedd hyn i gyd yn Dirioegaethau Ddibynnol y Goron Brydeinig. Nid yw'r naill na'r llall yn rhan o'r Deyrnas Unedig na'r Undeb Ewropeaidd. Oherwydd y gallai NSIPs arfaethedig effeithio ar y Tiriogaethau Ddibynnol hyn, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac fe allai, yn ôl ei disgresiwn,

³⁷ Yn unol â Rheoliad 3(3)(g)(iv), ystyr 'map diogelu' yw honno a roddir mewn cyfarwyddyd a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddir gan erthyglau 16(4), 25(1), 29(6) a 39 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr) 2010

³⁸ Yn unol â Rheoliad 3(3)(g)(iv), ystyr 'map diogelu' yw honno a roddir mewn cyfarwyddyd a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddir gan erthyglau 16(4), 25(1), 29(6) a 39 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr) 2010

Enw'r corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig	Sefyllfaoedd lle y caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ymgynghori â'r corff hwn yn ôl ei disgresiwn	Esboniad o'r rhesymau pam mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu'r corff hwn yn corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig
		ymgynghori â llywodraeth(au) y Tiriogaethau Dibynnol hyn mewn perthynas â phob cais sy'n debygol o effeithio ar dir a/neu amgylchedd morol y Dirioegaeth Ddibynnol honno.
Y Gorfforaeth Ddatblygu berthnasol	Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yn yr ardal a gwmpasir gan y gorfforaeth ddatblygu	<p>Nid yw'r diffiniad o 'awdurdod lleol' yn a43(3) Deddf Cynllunio 2008 yn cynnwys corfforaethau datblygu³⁹.</p> <p>Oherwydd y gallai NSIPs arfaethedig effeithio ar dir mewn ardal a gwmpasir gan gorfforaeth ddatblygu, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac fe allai, yn ôl ei disgresiwn, ymgynghori â'r gorfforaeth ddatblygu berthnasol ynglŷn â chais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yn yr ardal a gwmpasir gan y gorfforaeth ddatblygu.</p>
Yr Awdurdod Chwilio ac Achub perthnasol	Pob cais arfaethedig sy'n cynnwys unrhyw elfen alltraeth	<p>Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol am awdurdodau chwilio ac achub morol sifiliaid yn y Deyrnas Unedig a'u rhanbarthau chwilio ac achub yn yr awyr ac ar y môr, sy'n ymestyn y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol (12 môr-filltir). Mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon yn deillio o ymlyniad llywodraeth y Deyrnas Unedig i gonfensiynau rhyngwladol⁴⁰.</p> <p>Mae awdurdodau chwilio ac achub yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynydd perthnasol yr heddlu a throsedd⁴¹ • Awdurdodau tân ac achub perthnasol⁴²

³⁹ Mae corfforaethau datblygu yn cynnwys: "corfforaeth datblygu trefol", a ddiffinnir fel corfforaeth a sefydlwyd gan orchymyn o dan a135 Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980; a "chorfforaeth datblygu maerol", a ddiffinnir fel corfforaeth a sefydlwyd gan orchymyn o dan a198 Deddf Lleoliaeth 2011

⁴⁰ Confensiwn Cyfraith y Môr (UNCLOS), Confensiwn Diogelwch Bywyd ar y Môr (SOLAS) (1974), y Confensiwn Chwilio ac Achub Morol (1979) a'r Confensiwn Hedfan Sifil Rhyngwladol (Chicago 1944) (Atodiad 12)

⁴¹ Gwasanaeth yr Heddlu sy'n gyfrifol am gydlynu gweithrediadau chwilio ac achub ar y tir ac ar ddyfroedd mewndirol, gan gynnwys agweddau mewndirol y digwyddiadau hynny sy'n dechrau ar y môr. Trwy ei seilwaith rheoli, bydd comisiynydd perthnasol yr heddlu a throsedd yn cydlynu'r holl wasanaethau brys ac awdurdodau eraill lle y bo'n briodol

Enw'r corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig	Sefyllfaoedd lle y caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ymgynghori â'r corff hwn yn ôl ei disgrisiwn	Esboniad o'r rhesymau pam mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu'r corff hwn yn corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig
		<ul style="list-style-type: none"> • Ymddiriedolaethau ambiwlans perthnasol⁴³, a • Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI)⁴⁴. <p>Felly, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn a gallai, yn ôl ei disgrisiwn, ymgynghori â'r awdurdod chwilio ac achub perthnasol ar bob cais arfaethedig sy'n cynnwys unrhyw elfen alltraeth.</p>
Yr awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu llongddrylliadau	Pob cais arfaethedig sy'n cynnwys unrhyw elfen alltraeth	<p>Awdurdodau sy'n gyfrifol am ddiogelu llongddrylliadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr (Historic England)⁴⁵ • Cadw⁴⁶ • Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD)⁴⁷ <p>Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac fe allai, yn ôl ei disgrisiwn, ymgynghori â'r awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu llongddrylliadau ar gyfer pob cais arfaethedig sy'n cynnwys unrhyw elfen alltraeth.</p>
Awdurdodau Lleol o fewn y Parth Dylanwad Gweledol (ZVI)	Pob cais arfaethedig sydd wedi'i leoli ar safleoedd gerllaw morydiau neu afonydd, mewn lleoliadau arfordirol, neu sy'n cynnwys elfen alltraeth a	Gallai cynlluniau NSIP arfaethedig sydd wedi'u lleoli ar safleoedd gerllaw morydiau neu afonydd, mewn lleoliadau arfordirol, neu sy'n cynnwys elfen alltraeth, gael effaith weledol ar awdurdodau lleol nad ydynt wedi'u hamlygu'n awdurdodau 'A', 'B', 'C', neu 'D' o dan a43 Deddf Cynllunio 2008. Er enghraifft, lle mae awdurdod lleol wedi'i leoli yr ochr arall i foryd ond nad yw'n rhannu ffin ag awdurdod 'B' neu 'C' y byddai'r NSIP arfaethedig yn cael ei leoli ynddo.

⁴² Mae gan bob awdurdod tân ac achub y pŵer i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir yn bennaf ar gyfer ymladd tân i ymdrin â digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â thân, a allai gynnwys gweithrediadau chwilio ac achub. Nid yw'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i fôr tiriogaethol y Deyrnas Unedig (12 môr-filltir)

⁴³ Mae'n bosibl y bydd gan ymddiriedolaethau ambiwlans y GIG sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr hofrennydd meddygol brys a allai gynorthwyo â gweithrediadau chwilio ac achub

⁴⁴ Sefydliad gwirfoddol yw'r RNLI wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol at ddiben achub bywydau, hyrwyddo diogelwch a lleddfu effeithiau trychineb ar y môr (yn nyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig a thu hwnt)

⁴⁵ Historic England yw'r corff perthnasol yn Lloegr ar gyfer llongddrylliadau dynodedig o dan a1 ac a2 Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 a'r corff perthnasol mewn perthynas ag unrhyw safleoedd tanddwr sydd wedi'u rhestru o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

⁴⁶ Cadw yw'r corff perthnasol yng Nghymru ar gyfer llongddrylliadau dynodedig o dan a1 ac a2 Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973

⁴⁷ Y Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r corff perthnasol, o dan Ddeddf Diogelu Olion Milwrol 1986, mewn perthynas â drylliach (unrhyw) awyren filwrol neu long ddynodedig sydd wedi dryllio neu suddo neu sydd wedi mynd yn sownd

Enw'r corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig	Sefyllfaoedd lle y caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ymgynghori â'r corff hwn yn ôl ei disgresiwn	Esboniad o'r rhesymau pam mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu'r corff hwn yn corff ymgynghori nad ydynt yn rhagnodedig
	allai gael effaith weledol ar awdurdodau lleol o fewn parth dylanwad gweledol o 35km	Yn y sefyllfa hon, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer ei barn ac fe allai, yn ôl ei disgresiwn, ymgynghori â'r awdurdod(au) lleol mewn perthynas ag unrhyw effaith weledol bosibl NSIP arfaethedig ar sail parth dylanwad gweledol 35km a amlygwyd o elfen agosaf datblygiad NSIP arfaethedig i'r draethlin. Penderfynwyd ar y pellter hwn ar sail arfer gorau a amlygwyd mewn cyfarwyddyd ⁴⁸ .

Cyhoeddwyd ym mis Awst 2017

⁴⁸ Mae Cyfarwyddyd Treftadaeth Naturiol yr Alban 'Cynrychiolaeth Weledol Ffermydd Gwynt' (Rhagfyr 2014), yn awgrymu ym mharagraff 52 bellter parth gweledd damcaniaethol cychwynnol o 35km ar gyfer tyrbinau hyd at 130m, a hyd at 45km ar gyfer tyrbinau 150m; mae Nodyn Cyfarwyddyd 3 LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru, sef Cyfarwyddyd i Gymru: 'Defnyddio LANDMAP i Asesu Effeithiau Tirwedd a Gweledol Tyrbinau Gwynt ar y Tir' (Mai 2013), yn awgrymu yn adran 5 y dylai ardal chwilio gychwynnol ar gyfer asesu tyrbinau dros 100m ymestyn i 35km o ffin y safle; a 'Chyfarwyddyd ar Asesu Effaith Ffermydd Gwynt ar y Môr: Adroddiad ar Effeithiau Morlun a Gweledol' yr Adran Masnach a Diwydiant (yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau bellach), sy'n awgrymu y bydd angen ardal astudio â radiws 30-40km ar gyfer Asesu Effeithiau Morlun a Gweledol ffermydd gwynt ar y môr Rownd 2 (adran 4.2)